

Ysgol Llanbedrog
Llanbedrog
Pwllheli
Gwynedd
LL53 7NU

25/09/2026

Annwyl arweinwyr a staff

Ymweliad Interim: Medi 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Llanbedrog yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol ac agwedd o gynllun datblygu'r ysgol a gytunwyd gyda chi cyn yr ymweliad. Manteisiodd y tîm ar y cyfle i ymweld â dosbarthiadau, siarad â disgyblion a staff, craffu ar samplau o waith disgyblion a thrafod gwaith yr ysgol gyda chi. Isod, mae crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

Ffocws yr ymweliad

Lleihau'r defnydd o daflenni parod er mwyn galluogi'r disgyblion hynaf i wneud dewisiadau am y modd maent yn cofnodi a chyflwyno eu gwaith

- Dros amser, mae'r ysgol wedi gwneud rhywfaint o gynnydd wrth leihau'r defnydd o dasgau caeedig a rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau am y modd y maent yn cofnodi a chyflwyno eu gwaith. Mae enghreifftiau buddiol, yn enwedig ymhlith y disgyblion hŷn, o ymchwilio'n annibynnol, dewis gwybodaeth berthnasol a phenderfynu sut i'w chyflwyno.
- Ar frig yr ysgol, mae enghreifftiau lle mae fformat neu gymorth strwythuredig yn helpu disgyblion i ganolbwyntio eu meddwl yn briodol. Yn yr arferion gorau, mae athrawon yn defnyddio'r math hwn o gymorth yn fwriadus ac yn ei dynnu'n ôl pan fydd disgyblion yn barod i weithio'n fwy annibynnol.
- Er hyn, ar y cyfan, mae taflenni a fframweithiau parod yn parhau i gael eu defnyddio ar adegau pan nad ydynt yn ychwanegu digon o werth at y dysgu. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion ymestyn eu hymatebion, gwneud penderfyniadau a defnyddio eu medrau'n fwy annibynnol.
- Mae'r pennaeth yn cydnabod nad yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu annibyniaeth, gwneud dewisiadau a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu wedi'u cynllunio na'u gweithredu'n ddigon cyson ar draws yr ysgol. Yn dilyn y trafodaethau proffesiynol yn ystod yr ymweliad, cytunwyd bod angen ehangu'r flaenoriaeth er mwyn rhoi mwy o sylw i ddatblygu annibyniaeth disgyblion yn

gynyddol ar draws yr ysgol, yn hytrach na chanolbwyntio'n bennaf ar y disgyblion hynaf.

Datblygu medrau digidol y disgyblion ar draws yr ysgol er mwyn sicrhau dilyniant clir, cyfleoedd pwrpasol i gymhwyso'r medrau, a lefel briodol o her

- Mae staff yn darparu cyfleoedd priodol i'r disgyblion ieuengaf arbrofi â thechnoleg a dechrau datblygu medrau digidol cynnar.
- Mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio technoleg yn hyderus ac yn bwrpasol i ymchwilio, cyfleu gwybodaeth a chydweithio. Er enghraifft, maent yn dod o hyd i wybodaeth berthnasol ar y rhyngwrdd ac yn creu cyflwyniadau digidol yn annibynnol. Yn achlysurol, cânt gyfleoedd i ddefnyddio meddalwedd arall, er enghraifft i brosesu geiriau, codio a chreu graffiau syml.
- Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio ystod o offer a rhaglenni digidol ac yn datblygu dealltwriaeth briodol o sut i gadw'n ddiogel ar-lein.
- Mae disgyblion yn tueddu i ddefnyddio offer a dulliau digidol y maent eisoes yn gyfarwydd â nhw. Nid yw'r cynllunio gan athrawon ar gyfer ystod, dilyniant a'r lefel gynyddol o her ym medrau digidol disgyblion yn ddigon cyson eto wrth i iddynt symud drwy'r ysgol.
- Mae'r pennaeth yn cydnabod yr angen i fireinio'r flaenoriaeth hon er mwyn rhoi mwy o ffocws ar ddatblygu medrau digidol disgyblion yn gynyddol dros amser.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:

<http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6612060>

Yn gywir



Liz Miles

Cyfarwyddwr Cynorthwyol

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.